Mynediad i Bolisi Asesiad Teg

Mae polisi Asesiad Teg SNAP Cymru yn sicrhau bod yr holl asesiadau sy'n cael eu cwblhau gan ein dysgwyr yn:

- *Ddibynadwy*
- *Dilys*
- *Addas at bwrpas*
- *Tryloyw*
- *Adnabod a pharchu cydraddoldeb ac amrywiaeth*
- *Defnyddio iaith briodol a hygyrch ar gyfer asesiad*

Cynulleidfa
Y gynulleidfa a fwriedir ar gyfer y ddogfen hon yw:

Staff, gwirfoddolwyr a dysgwyr SNAP Cymru ac unrhyw wirwyr allanol sydd ynghlwm wrth ddarparu ac asesu ar ran SNAP CYMRU ac AGORED

Mae'r polisi hwn yn ymdrin â holl gyrsiau achrededig AGORED a gyflwynir gan SNAP CYMRU

Caiff yr uchod ei droi'n arfer yn sgil y canlynol:

Tiwtoriaid/Aseswyr:

- Maent yn cael eu derbyn i grombil egwyddorion asesu SNAP Cymru ac yn deall asesiadau ar sail cyfeirio at feini prawf.
- Maent yn cofnodi deilliannau'r holl weithgareddau asesu.
- Maent yn darparu adborth i'r dysgwyr a gaiff ei gyfeirio'n glir o ran cyflawni'r deilliannau dysgu.
- Maent yn cynllunio ac amseru'r asesiadau fel na chaiff y dysgwyr na'r tiwtoriaid eu gorlwytho, ac fel nad yw'n gwahaniaethu yn erbyn unrhyw grŵp penodol o ddysgwyr.
- Maent yn ymwybodol o'r graddfeydd amser sydd ar gael er mwyn cwblhau asesiad yr uned ar gyfer cymedroli ac achredu.

Awduron deunyddiau asesu:

- Maent yn cynhyrchu deunyddiau/gweithgareddau asesu sy'n ystyried cydraddoldeb ac amrywiaeth dysgwyr sy'n galluogi tystiolaeth i gael ei chynhyrchu mewn ffyrdd amrywiol

- Maent yn sicrhau bod y strategaeth a'r gweithgareddau asesu yn darparu ar gyfer y broses o gynhyrchu tystiolaeth ar gyfer holl Ddeilliannau Dysgu Uned.
- Maent yn sicrhau eu bod yn defnyddio iaith syml sy'n briodol i lefel yr uned
- Maent yn adolygu'r tasgau a'r deunyddiau asesu yn rheolaidd ac fel rhan o unrhyw gwrs newydd

Cymedrolwyr/Gwirwyr Mewnol (TO's/SDO's):

- Maent yn sicrhau bod cofnodion tiwtoriaid yn cael eu cadw'n eglur ac yn gyfredol
- Maent yn sicrhau bod adborth tiwtoriaid yn eglur ac yn ddiamwys, a'i fod yn berthnasol i'r meini prawf asesu
- Maent yn sicrhau bod yr holl feini prawf asesu'n ddilys
- Maent yn darparu adborth ysgrifenedig i'r tiwtoriaid a'r aseswyr
- Maent yn sicrhau bod yr holl argymhellion gwella ansawdd yn cael eu monitro a'u harwerthu
- Maent yn cefnogi/mentora pob tiwtor newydd ac yn nodi meysydd ar gyfer datblygiadau
- Maent yn darparu hyfforddiant cynefino ar gyfer yr holl diwtoriaid newydd o ran asesu, ac asesiadau AGORED Cymru o ran asesiadau sy'n cyfeirio at feini prawf

Dysgwyr

- Cânt eu cyflwyno i broses Asesu AGORED Cymru ac maent yn deall asesu ar sail cyfeirio at feini prawf
- Maent yn derbyn copi o'r uned, ac mae lefel yr uned yn briodol i'r dysgwr
- Maent yn derbyn offer/cynllun asesu ac yn deall y dystiolaeth sydd ei hangen er mwyn bodloni'r meini prawf asesu
- Maent yn ymwybodol o'r graddfeydd amser sydd ar gael i gwblhau asesiadau'r uned i gael eu hachredu
- Maent yn derbyn adborth o ran yr holl weithgareddau asesu sy'n berthnasol i gyflawniad neu ddiffyg cyflawniad o ran achredu
- Mae adborth i ddysgwyr yn briodol i'w hanghenion dysgu; gallai hyn fod ar lafar neu'n ysgrifenedig ac fe ddylid ei ddogfennu
- Caiff dysgwyr gyfle i weithredu ar sail adborth yn dilyn asesiad ffurfiannol a gwneud newidiadau neu ychwanegiadau i'w gwaith
- Maent yn derbyn addasiadau rhesymol ac ystyriaeth arbennig lle bo'n briodol a dan arweiniad AGORED Cymru
- Maent yn cael gwybod am broses apeliadau'r ganolfan a sut mae cael mynediad i unrhyw ddogfennaeth i gefnogi'r defnydd ohoni

Gwirwyr Allanol ac Adolygwyr Ansawdd AGORED

- Maent yn derbyn mynediad i'r holl ddogfennaeth a thystiolaeth asesu berthnasol i gefnogi dyfarnu credydau yn ôl y cais.

Awdur y Polisi: Amanda Daniels
Eiliwyd gan: Caroline Rawson
Cymeradwywyd: Mehefin 2010
Wedia ei adolygu: Mehefin 2013
Dyddiad adolygu: Mehefin 2016